**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths
Cadeirydd
y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

15 Mehefin 2018

Annwyl John

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Mai 2018 yn gofyn imi egluro'r swyddogaethau a'r cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Gwaith Teg a'r Comisiwn Gwaith Teg i lywio eich ymchwiliad i dlodi yng Nghymru.

Pan amlinellodd Llywodraeth Cymru ei huchelgais i Gymru ddod yn genedl Gwaith Teg, penderfynwyd mynd â'r gwaith ymlaen mewn dau gam. Bwriad cam un oedd cynnal gwaith cwmpasu cychwynnol a nodi y prif arferion sy'n cael effaith ar Waith Teg. Gan gynnwys:

- adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael;
- nodi'r bylchau yn y sylfaen dystiolaeth;
- nodi'r dulliau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i'w galluogi i hyrwyddo a gyrru yr agenda Gwaith Teg ledled Cymru;
- a diffiniad o Waith Teg.

Cafodd y Bwrdd Gwaith Teg ei sefydlu ym mis Mai 2017, i gynnal gwaith cwmpasu cychwynnol. Bu'r Bwrdd yn ffynhonnell cyngor da, creadigol a beirniadol i helpu i brofi ein syniadau. Rwy'n credu ei fod wedi gwneud cynnydd da ar y cychwyn i nodi'r bylchau yn y dystiolaeth a'r dulliau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yrru'r agenda Gwaith Teg. Wedi edrych ar y dystiolaeth roedd yn ystyried y byddai nodweddion Gwaith Teg Sefydliad yr Ewro yn gyfres o benawdau da i sefydlu fframwaith Gwaith Teg yng Nghymru, a fyddai'n cynnwys:

- Cymeryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau (Hawl i gael eich clywed)
- Enillion (Enillion teg fesul awr wedi'u gwarantu)
- Rhagolygon (Sicrwydd swydd, datblygu o fewn swydd a safon y contract)
- Ansawdd y Swydd ei Hun (sgiliau ac ymreolaeth, dim camdriniaeth, amgylchedd weithio dda, lefel gwaith cytbwys a theg)
- Ansawdd yr Amser Gweithio (Dewis o ran hyd, amserlen a hyblygrwydd amser gweithio.)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er y bu'n bosibl i'r Bwrdd gytuno ar yr hyn sy'n cael ei gyfrif fel Gwaith Teg (ar lefel uchel iawn) a'r dulliau sydd ar gael i ddatblygu gwaith teg, ni allai benderfynu ar ddiffiniad o Waith Teg a chyrraedd consensws ar y dulliau a'r prosesau o ddarparu canlyniadau gwaith teg yn ystod y cam cwmpasu. Daethom felly i'r casgliad ei fod yn amser i symud y gwaith i'r cam nesaf i ddatblygu gwaith cwmpasu cychwynnol y Bwrdd ac i gynnal mwy o waith dadansoddi arbenigol manwl.

Fis diwethaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog ei fwriad i sefydlu Comisiwn Gwaith Teg i ddatblygu ail gam y gwaith ac i brofi'r dystiolaeth a gwneud argymhellion ar y newidiadau sydd eu hangen i gefnogi gwaith teg yng Nghymru.  Bydd yn gorff o fewn Llywodraeth Cymru gyda chadeirydd annibynnol ac awdurdodol sy'n cael ei benodi gan y Prif Weinidog ac sy'n cynnwys nifer fechan o arbenigwyr ym maes cyfraith cyflogaeth a chymrodeddu ac undebwr llafur gweithredol neu gyn undebwr llafur uwch.  Mae'r Prif Weinidog yn gobeithio bod mewn sefyllfa i gyhoeddi Cadeirydd y Comisiwn a'i Gylch Gorchwyl o fewn yr wythnosau nesaf.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport